Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

RHANNU ARFER DDA WRTH DDATBLYGU

MEDRAU LLYTHRENNEDD DISGYBLION

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

RHANNU ARFER DDA WRTH DDATBLYGU MEDRAU LLYTHRENNEDD DISGYBLION

Cefndir

Ym mis Medi 2008, cynhaliodd Estyn gynhadledd ar lythrennedd ar gyfer dros 100 o gynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau hyfforddi athrawon, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartïon eraill â budd. Agorwyd y gynhadledd gan Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Siaradodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, am godi safonau llythrennedd yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar ganfyddiadau dau o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar lythrennedd - 'Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar' ac 'Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed'.

Hefyd, rhoddodd y gynhadledd gyfleoedd i gynadleddwyr glywed am ymchwil i addysgu medrau darllen gan yr Athro Viv Edwards o Brifysgol Reading, gwybodaeth am bolisi ac arfer Sgiliau Sylfaenol Cymru gan Toni Schiavone, Cyfarwyddwr, Sgiliau Sylfaenol Cymru a safbwynt ar faterion mewn dysgu ac addysgu Cymraeg gan Meinir Ebbsworth, ymgynghorydd, Cyngor Sir Ceredigion. Mae gwybodaeth o gyflwyniadau PowerPoint yr Athro Viv Edwards a Meinir Ebbsworth wedi'u cynnwys.

Daeth grwpiau trafod ag ymarferwyr, uwch reolwyr a llunwyr polisi ynghyd i ystyried ffyrdd o wella arfer er mwyn codi safonau llythrennedd ar gyfer dysgwyr 3 i 14 mlwydd oed. Mae rhannu arfer dda yn ehangach yn hanfodol i helpu codi safonau mewn Saesneg a Chymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r arferion effeithiol a nodwyd drwy'r trafodaethau hyn wedi cael eu grwpio yn ôl cwestiynau allweddol er mwyn cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr i adolygu meysydd gwaith ac i hybu gwelliant ymhellach. Mae rhai enghreifftiau o arfer lwyddiannus hefyd wedi cael eu cynnwys.

Mae cyhoeddiadau diweddar Estyn sy'n cyfeirio at agweddau ar lythrennedd yn cynnwys:

- Gwella Dysgu ac Addysgu Medrau Darllen Cynnar (2007); ac
- Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed (2008).

Bydd arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 5 i 7 oed yn cael ei chyhoeddi yn 2009

GWELLA DYSGU AC ADDYSGU MEDRAU DARLLEN AC YSGRIFENNU AR GYFER DISGYBLION 3 I 14 MLWYDD OED

C Beth gall ysgolion ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod medrau gwrando a siarad yn cael eu datblygu fel rhagofynion ar gyfer dysgu darllen?

- Cydnabod bod cynnydd cynnar mewn darllen yn dibynnu ar ddatblygiad iaith lafar y dysgwr.
- Rhoi mwy o statws i lefaredd ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd i ddefnyddio siarad yn yr ystafell ddosbarth.
- Canolbwyntio ar sefydlu ymddygiad gwrando da fel bod disgyblion yn talu sylw ac yn canolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei glywed.
- Datblygu medrau gwrando disgyblion fel y gallant ddadansoddi a gwahaniaethu'r geiriau a'r synau unigol y maent yn eu clywed.
- Annog 'partneriaid siarad' a dulliau fel 'cadair boeth' i ddatblygu medrau llefaredd.
- Pwysleisio chwarae iaith lafar, fel gêmau geiriau, sy'n cyfrannu at ddatblygiad ymwybyddiaeth seinyddol.
- Defnyddio adnoddau, fel gorsafoedd gwrando a rhaglenni radio, i helpu datblygu medrau clywedol.
- Helpu disgyblion i fyfyrio'n llawer mwy pwrpasol ar eiriau fel y gallant wahaniaethu rhwng synau mewn geiriau a rhwng geiriau, a'u segmentu.
- Datblygu ymwybyddiaeth o odl fel rhan bwysig o weithgareddau iaith lafar.
- Datblygu ymwybyddiaeth o sillafau fel bod disgyblion yn gallu clywed rhannau neu segmentau o ffonemau sy'n llunio rhythm y gair.
- Asesu medrau llafar disgyblion yn rheolaidd fel y gall y wybodaeth hon lywio gwaith cynllunio gwaith newydd.
- Defnyddio llawer o gyd-destunau gwahanol, fel chwarae a drama dychmygus, a phrofiadau chwarae dan do ac awyr agored, i ddarparu cyd-destunau dysgu ystyrlon ar gyfer mwynhau, rhannu a datblygu medrau ieithyddol.

C Sut gellir addysgu ffoneg mewn modd systematig a chyson fel rhan integredig o ddulliau dysgu darllen?

- Bod yn gyson yn y ffordd y caiff ffoneg ei addysgu ar draws yr ysgol fel bod parhad yn nysgu disgyblion.

- Sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n aml ac yn rheolaidd.

- Gwneud yn siŵr bod addysgu'r rhaglen yn sionc.

- Ystyried tystiolaeth ymchwil fel bod lle ffoneg yn cael ei gydnabod yn amod angenrheidiol ar gyfer dysgu darllen, ond nad dyma'r unig amod.

- Gwneud yn siŵr bod gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddysgu ac addysgu ffoneg.

- Defnyddio dulliau symbylol a diddorol o addysgu ffoneg.

- Gwneud defnydd medrus o asesu er mwyn llywio'r cam dysgu nesaf.

- Defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi disgyblion sy'n gwneud cynnydd arafach neu ansicr.

- Gwneud yn siŵr bod athrawon dan hyfforddiant yn gwybod sut i addysgu ffoneg.

C Beth ddylai ysgolion ei wneud i roi mwy o sylw i wella ysgrifennu disgyblion?

- Archwilio ystod gwaith disgyblion i wneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael profiadau llawn, cyfoethog a heriol o ysgrifennu.

- Cefnogi a threfnu ysgrifennu disgyblion a defnyddio technegau fel modelu ysgrifennu, fframiau ysgrifennu ac ysgogiadau storïau a brawddegau.

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer cynllunio, drafftio, diwygio a chyflwyno ysgrifennu.

- Rhoi proffil uchel i ysgrifennu yn yr ysgol fel bod disgyblion yn gweld athrawon ac oedolion eraill yn ysgrifennu ac yn gweld arddangosiadau deniadol o'u gwaith ysgrifenedig.

- Sicrhau bod addysgu'n talu sylw agos i gynnwys, mynegiant a chywirdeb yn ysgrifennu disgyblion.

- Canolbwyntio ar grwpiau ac unigolion sy'n gwneud y cynnydd lleiaf.

- Nodi materion penodol sy'n dal cynnydd disgyblion yn ôl wrth ysgrifennu.

- Targedu mentrau ar gyfer gwelliant ar yr agweddau gwan ar ysgrifennu Saesneg a Chymraeg sydd i'w gweld yn yr ysgol.

- Ymgysylltu'n eang wrth rannu arfer dda a dysgu proffesiynol er mwyn cryfhau ac ymestyn gallu'r ysgol i wella.

- Ymgymryd â monitro systematig ac arfarnu trylwyr fel bod dysgu ac addysgu ysgrifennu cystal ag y gallant fod.

C Sut gall ysgolion ddefnyddio'r cwricwlwm cyfan yn fwy effeithiol i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion?

- Datblygu polisi ysgol gyfan sy'n sicrhau cydlyniad a chysondeb ac sy'n gwneud datblygiad medrau cyfathrebu yn gyfrifoldeb i'r staff cyfan;

- Pennu uwch reolwr sy'n gallu rhoi statws i'r gwaith a bod yn eiriol dros lythrennedd ar draws y cwricwlwm.

- Gwneud yn siŵr bod darllen ac ysgrifennu'n cael eu hymgorffori'n gadarn ym mhob cynllun gwaith ac yng nghynlluniau gwersi a nodi'r medrau darllen ac ysgrifennu penodol y dylid eu datblygu.

- Sicrhau bod gofynion darllen ac ysgrifennu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn cymryd digon o ystyriaeth o fedrau sydd gan y disgyblion eisoes a'u bod yn cael eu haddasu fel eu bod yn addas i anghenion dysgu disgyblion.

- Datblygu cysylltiadau â rhaglenni darllen unigol disgyblion, fel bod gwaith mewn pynciau'n adeiladu'n llwyddiannus ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

- Defnyddio tasgau ysgrifennu heriol ac amrywiol mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

- Helpu disgyblion i sicrhau'r derminoleg benodol sy'n berthnasol i'r pynciau y maent yn eu hastudio.

- Rhoi sylw cyson i safonau sillafu, gramadeg ac ysgrifennu disgyblion mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

- Mewn ysgolion uwchradd, herio amgyffredion mai cyfrifoldeb athrawon Cymraeg a Saesneg yn unig yw medrau cyfathrebu.

- Ymgysylltu'n eang i rannu arfer dda a dysgu proffesiynol er mwyn cryfhau ac ymestyn gallu'r ysgol i wella.

- Ymgymryd â monitro systematig ac arfarnu trylwyr fel bod dysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod ar draws yr ysgol.

C Sut gall ysgolion wneud mwy i ystyried diddordeb ac anghenion dysgu llythrennedd bechgyn?

- Darparu tasgau darllen ac ysgrifennu dilys sy'n berthnasol i anghenion a diddordebau bechgyn – gwnewch ddarllen ac ysgrifennu'n dda yn 'cŵl'.

- Defnyddio heriau a chystadlaethau i sicrhau sylw ac i symbylu bechgyn.

- Osgoi gorgyffredinoli o ymchwil; er enghraifft, nid yw bechgyn yn hoff o ffuglen.

- Gwneud yn siŵr bod gan gynlluniau gwersi nodau cyflawnadwy, clir sy'n cael eu rhannu gyda disgyblion.

- Sicrhau bod gwaith llafar yn dod cyn darllen ac ysgrifennu fel bod disgyblion yn siarad er mwyn ymarfer eu gwaith a'u bod wedi paratoi'n well ar gyfer tasgau.

- Defnyddio chwarae rôl, drama a gwaith ar y cyd mewn grŵp fel bod dysgu'n ddiddorol ac yn gyffrous.

- Defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ysgogol gan ddefnyddio deunyddiau llenyddol a deunyddiau anllenyddol, sy'n apelio at ddiddordebau bechgyn.

- Darparu adnoddau, fel fframiau a thempledi ysgrifennu, sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol.

- Defnyddio tasgau darllen ac ysgrifennu strwythuredig a phwrpasol sydd wedi cael eu hesbonio'n glir.

- Defnyddio effaith symbylol technoleg i annog cyfathrebu, darllen ac ymchwil.

- Monitro gwaith disgyblion yn agos a rhoi cefnogaeth benodol i'r rheiny sydd angen help wrth drefnu eu gwaith.

- Rhoi sylw i drefniadau eistedd a grwpio i ddod â'r manteision mwyaf i ddysgu bechgyn a merched.

- Defnyddio strategaethau cadarnhaol sy'n adeiladu hunan-barch disgyblion ac sy'n gwobrwyo ymdrech a gwaith da.

C Beth y mae angen i ysgolion wneud mwy ohono er mwyn gwella'r pontio mewn Cymraeg a Saesneg, yn enwedig rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7?

- Datblygu cynlluniau gwaith wedi'u rhannu er mwyn galluogi parhad cliriach a dilyniant gwell, er enghraifft ar draws Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8.

- Rhannu logiau darllen a samplau o ysgrifennu er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth staff o gyflawniadau disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

- Gwella gwybodaeth staff am ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu yn eu hysgolion partner.

- Gwella'r defnydd ar y wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo rhwng ysgolion.

- Osgoi ail-brofi disgyblion pan fydd gwybodaeth ar gael; bydd hyn yn colli amser addysgu a dysgu gwerthfawr.

- Gallu cael mynediad i hyfforddiant staff ar draws cyfnodau fel bod gan athrawon ddealltwriaeth sicr

C Beth mwy y gellir ei wneud i helpu pob disgybl wneud cymaint o gynnydd mewn Saesneg a Chymraeg ag y gallant?

- Rhoi digon o sylw i'r pedwar maes penodol, sef gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu.

- Gwneud yn siŵr nad yw cynnydd disgyblion yn cael ei rwystro gan fylchau yng nghwmpas y rhaglenni addysgu neu ddiffyg parhad yn eu dysgu.

- Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod sut i addysgu a gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

- Gwella systemau asesu fel eu bod yn syml, yn gyson ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn rheolaidd ar draws yr ysgol.

- Casglu a defnyddio gwybodaeth sy'n nodi'r medrau darllen ac ysgrifennu y mae disgyblion eisoes wedi'u cyflawni.

- Defnyddio gwybodaeth asesu i bennu cam nesaf yr addysgu'n gywir er mwyn bodloni anghenion dysgu disgyblion.

- Olrhain a monitro cynnydd pob disgybl.

- Defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cyfansoddiad grwpiau addysgu er mwyn osgoi cyfyngu ar gynnydd disgyblion gan ddysgu sy'n rhy araf neu'n rhy gyflym.

- Gwneud defnydd effeithiol o hunanasesu ac asesu cymheiriaid gan ddisgyblion.

- Helpu rhieni i chwarae mwy o ran wrth gefnogi dysgu eu plant.

- Rhoi cyfleodd i rieni ac i'w plant elwa ar raglenni cefnogi iaith a llythrennedd.

- Rhoi mwy o wybodaeth i rieni ar sut caiff darllen ac ysgrifennu eu haddysgu yn yr ysgol, lle bo'n briodol.

- Cynnal deialog rheolaidd gyda rhieni i gryfhau partneriaethau a helpu i ddiweddaru gwybodaeth rhieni am gynnydd eu plant.

- Datblygu hyfforddiant traws-gyfnod i helpu athrawon i wybod mwy am arfer cynradd ac uwchradd.

C Sut gall uwch reolwyr mewn ysgolion wneud yn siŵr bod dysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod?

- Bod â strategaethau clir sy'n cael eu rhannu ac sy'n effeithiol ar gyfer gwella safonau llythrennedd.

- Codi ymwybyddiaeth staff o lythrennedd ac ennill cydnabyddiaeth mai cyfrifoldeb pawb yw helpu gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

- Cydnabod bod llythrennedd yn amlochrog, sy'n gallu bod yn rhwystr i'r rheiny nad ydynt yn arbenigwyr, a all fod angen cefnogaeth.

- Creu ethos lle mae athrawon pynciau heblaw am Saesneg, yn gyfforddus yn gofyn am gefnogaeth i ddatblygu llythrennedd.

- Gwneud yn siŵr bod gwaith ar draws y cwricwlwm cyfan yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

- Defnyddio uwch reolwr i fod yn eiriol dros lythrennedd a rhoi statws i waith yn yr ysgol.

- Unioni anghysondebau a thensiynau mewn arfer sy'n atal cynnydd.

- Cadw gwybodaeth a dealltwriaeth o ymchwil presennol ac arfer effeithiol yn gyfredol.

- Ymgysylltu'n eang â rhannu arfer dda a dysgu proffesiynol er mwyn cryfhau ac ymestyn gallu'r ysgol i wella.

- Targedu mentrau ar gyfer gwella ar yr agweddau gwan sy'n amlwg mewn Saesneg a Chymraeg.

- Ymgymryd â monitro systematig ac arfarnu trylwyr fel bod dysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod ar draws yr ysgol.

ENGHREIFFTIAU O ARFER LWYDDIANNUS WRTH GODI SAFONAU DARLLEN AC YSGRIFENNU

Datblygu cysylltiadau cymunedol

Mae cadwyn siopau llyfrau fawr yn gweithio gyda staff mewn awdurdod lleol (ALl) i gynnig gweithdai a gwasanaethau i rieni disgyblion sy'n cael eu cefnogi gan raglenni 'Catch-Up' a 'Dyfal Donc'.

Mae'r siop lyfrau yn darparu blychau cychwyn o lyfrau i'w prynu, sy'n dangos y lefelau sy'n cael eu defnyddio yn y cynlluniau darllen, ac maent yn rhoi rhestrau pwrpasol o lyfrau at ei gilydd ar gyfer ysgolion. Maent yn cynnig talebau disgownt i helpu rhieni i brynu o'r stoc deunyddiau sy'n cael eu harddangos. Mae staff o'r siop lyfrau hefyd yn cynnal gweithdai i rieni ar foreau Sadwrn. Tra bod eu plant yn cael gofal mewn meithrinfa, gall rhieni gyfarfod â staff o'r ALl i drafod sut i helpu eu plant i wella'u medrau darllen.

Mae'r fenter hon wedi llwyddo i sicrhau mwy o ymwneud gan rieni mewn cefnogi dysgu eu plant.

Gwella cysondeb asesu athrawon

Mewn un awdurdod lleol (ALl) gyda nifer fach o ysgolion uwchradd, trefnodd ymgynghorwyr i bob clwstwr uwchradd ddatblygu portffolio wedi'i lefelu o waith disgyblion, a ddewiswyd naill ai o Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth, mathemateg neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r staff o bob ysgol ym mhob clwstwr ac ymgynghorwyr ac athrawon ymgynghorol, yn cyfarfod yn rheolaidd i gyflawni'r gwaith.

Mae'r portffolios ar gyfer pob pwnc yn cynnwys enghreifftiau o waith ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae gwaith yn cael ei anodi a'i lefelu. Mae'r dull hwn wedi lleihau'r galwadau ar ysgolion i lunio eu portffolios eu hunain. Mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd bortffolio cyffredin o waith bellach, sy'n helpu i sicrhau gwelliannau yn asesu athrawon.

Datblygu partneriaid cefnogi dysgu

Mewn ysgol uwchradd, mae myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 wedi dod yn bartneriaid cefnogi dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

Mae'r disgyblion iau yn cael eu hasesu er mwyn pennu pa fath o gefnogaeth dysgu sydd ei hangen arnynt. Mae'r myfyrwyr hŷn yn gweithredu fel cyfeillion ac yn helpu'r disgyblion iau gyda datblygu eu dysgu, fel sut i reoli a threfnu eu galwadau o ran gwaith cartref a sut i wella'u medrau darllen a dysgu. Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr iau yn gwneud gwelliannau gwell na'r disgwyl yn eu dysgu.

Mae'r holl bartneriaid yn canfod bod y gwaith yn werth chweil ac maent yn mwynhau'r cyfle i weithio gydag eraill. Mae'r ysgol wedi troi at bartner dysgu fel y gall y myfyrwyr hŷn ennill achrediad ar gyfer eu hymwneud.

Cynnig diben gwirioneddol ar gyfer ysgrifennu

Darparodd prosiect hanes rhyng-genhedlaeth ddibenion gwirioneddol ar gyfer ysgrifennu mewn ysgol uwchradd.

Mae disgyblion yn cynllunio ac yn cynnal cyfweliadau ag aelodau hŷn y gymuned. Mae'r cyfweliadau hyn yn cyflwyno ystod gyfoethog o wybodaeth sydd â blas 'bywyd go iawn', sy'n apelio i ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn ystyried eu hunain yn awduron, lawer o symbyliad i ymgymryd ag ystod o dasgau ysgrifenedig, gan gynnwys barddoniaeth, arfarniadau a gwaith nad yw'n ffuglen. Mae'r gwaith y maent yn ei gynhyrchu o safon ac ansawdd uchel iawn.

Datblygu ffrindiau darllen

Mewn ysgol gynradd, mae staff yn trefnu bod disgyblion yn dod yn ffrindiau darllen. Bob wythnos, bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn darllen gyda Disgyblion Blwyddyn 3, disgyblion Blwyddyn 5 yn darllen gyda disgyblion Blwyddyn 2, disgyblion Blwyddyn 4 yn darllen gyda disgyblion Blwyddyn 1 a bydd disgyblion Blwyddyn 3 yn darllen gyda phlant y dosbarth derbyn.

Mae canllawiau syml ar gyfer y ffrindiau darllen, fel sut i drafod y llyfr, sut i helpu eich ffrind darllen i ddarllen geiriau newydd a sut i gofnodi unrhyw anawsterau y maent yn eu cael.

Dywed staff fod disgyblion yn mwynhau'r sesiynau hyn yn fawr. Maent yn gwella hunanhyder a hunan-barch disgyblion, yn rhoi cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb ac yn helpu i symbylu bechgyn.

Gwella cynllunio ar gyfer ysgrifennu

Mewn ysgol gynradd, mae staff yn dyfeisio fframwaith i'w helpu nhw i gynllunio bod disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres ar draws y cwricwlwm. Mae'r fframwaith yn helpu staff i wneud yn siŵr bod pob genre ysgrifennu'n cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn mewn gwahanol feysydd pwnc. Mae'r fframwaith hefyd yn helpu staff i wneud yn siŵr bod y genre yn cael ei ailadrodd mewn cyd-destun gwahanol yn ystod y blynyddoedd dilynol. Mae'r addysgu'n canolbwyntio'n helaeth ar ystod a dilyniant. Mae'r dull hwn wedi helpu staff i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion a'u meistrolaeth ar ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol.

Cyflwyniadau

Ymchwil ar addysgu medrau darllen cynnar
Ffeithiau a ffantasïau

Yr Athro Viv Edwards
Prifysgol Reading

Greal sanctaidd llythrennedd

- mae trafodaethau ar y ffordd fwyaf effeithiol o addysgu plant i ddarllen yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg
- mae trafodaeth gyfoes yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cymharol dulliau 'rhan-i-gyfan' a 'chyfan-i-ran'
- mae eiriolwyr dros y ddau ddull yn cydnabod
    - pwysigrwydd y berthynas rhwng llythrennau a seiniau
    - mai dealltwriaeth yw nod hyfforddiant darllen.

Nodiadau: Mae'r cais am Real Sanctaidd llythrennedd – y ffordd fwyaf effeithiol o addysgu plant i ddarllen – yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg (Davies, 1973). Am y 40 mlynedd ddiwethaf, fodd bynnag, mae'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd cymharol dulliau 'rhan-i-gyfan', fel ffoneg ac adnabod geiriau, ac ar ddulliau 'cyfan-i-ran' fel iaith gyfan.

Mae eiriolwyr y ddau ddull yn gwahaniaethu yn eu syniadau ynghylch sut mae plant yn dysgu darllen. Ond, mae'r ddau'n cydnabod pwysigrwydd y berthynas rhwng llythrennau a seiniau, ac mae'r ddau'n rhannu'r gred mai nod hyfforddiant darllen yn y pendraw yw dealltwriaeth.

Yn wir, mae llawer o bobl ers cryn amser bellach wedi bod o'r farn bod polareiddio diangen yn y drafodaeth ar ddulliau addysgu. Erbyn diwedd y 1980au, roedd cefnogaeth gref ar draws y byd Saesneg ei iaith i'r syniad nad oedd un dull o addysgu darllen yn addas i bob plentyn: yr hyn yr oedd ei angen oedd dull cytbwys, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o addysgwyr wedi parhau i hyrwyddo manteision dull cytbwys ond, at ei gilydd, mae'r pendil yn symud yn gynyddol tuag at addysgu ffoneg.

Adolygiadau o lenyddiaeth

- Mae adolygiadau o ymchwil yn disgyn i ddau brif gategori
- systematig
- naratif

Nodiadau: Mae consensws cynyddol y dylai ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth danategu polisi addysgol. Felly, beth mae'r ymchwil yn dweud wrthym? Wel, beth hoffwn i ei wneud y bore yma yw amlinellu'r anawsterau wrth ddarparu atebion amlwg i'r cwestiynau y mae llunwyr polisi ac athrawon eisiau atebion ar eu cyfer.

Y peth cyntaf i'w ystyried yw bod swm enfawr o ymchwil. Mae'r rhan fwyaf o'r ymdrechion i ateb y cwestiynau mawr sydd o ddiddordeb i lunwyr polisi'n dechrau

trwy ymgymryd ag adolygiadau o'r llenyddiaeth ac mae'r rhain yn disgyn i ddau brif gategori: systematig a naratif.

Adolygiadau systematig

- defnyddiant ddulliau penodol a meini prawf a benodwyd ymlaen llaw i nodi astudiaethau ar gyfer meta-ddadansoddi (dull o grynhoi canlyniadau meintiol o amrywiaeth o astudiaethau mewn modd ystadegol)
- eu nod yw cynyddu dilysrwydd y canfyddiadau drwy dryloywder wrth ddewis yr astudiaethau a'r dulliau dadansoddi.
- fodd bynnag, nid ydynt heb eu problemau.

Nodiadau: Mae adolygiadau systematig yn defnyddio dulliau a meini prawf penodol i nodi astudiaethau er cymhariaeth. Beth wyf fi'n ei olygu wrth meta-ddadansoddi? Wel, mae meta-ddadansoddi yn ddull o grynhoi canlyniadau o amrywiaeth o astudiaethau mewn modd ystadegol. Y nod yw cynyddu dilysrwydd y canfyddiadau drwy gyfrwng tryloywder o ran dewis yr astudiaethau a'r dulliau dadansoddi. Mewn geiriau eraill, mae pobl yn ceisio sicrhau eich bod yn cymharu tebyg wrth ei debyg. Ond nid yw'r ffordd hon o wneud pethau heb ei phroblemau o bell ffordd. Beth am i ni gymryd un enghraifft o feta-ddadansoddi – yr un yr ymgymerwyd â hi gan y Panel Darllen Cenedlaethol dylanwadol iawn yn UDA.

Problemau gydag adolygiadau systematig

- Dehongli
- Data annigonol
- Canolbwynt anarferol o gul
- Peryglon gorgyffredinoli.

Nodiadau: mae amrywiaeth eang o broblemau gydag adolygiadau systematig:

Dehongli: yn America, ymgymerodd â'r Panel Darllen Cenedlaethol â meta-ddadansoddiad o astudiaethau ar addysgu darllen; amrywiodd eu canfyddiadau mewn sawl agwedd bwysig o ganfyddiadau tîm arall o ymchwilwyr uchel eu parch a wnaeth ail-ddadansoddi'r un astudiaethau i bob diben.

Data annigonol: Mae'r meta-ddadansoddiad yr ymgymerwyd ag ef dim ond tair blynedd yn ddiweddaraf gan Torgerson a chydweithwyr yn awgrymu problem arall. Oherwydd eu bod wedi defnyddio meini prawf hyd yn oed yn fwy caeth, nid oeddent yn gallu ateb nifer o'u cwestiynau ymchwil oherwydd eu bod yn tynnu ar gyn lleied o astudiaethau.

Canolbwynt anarferol o gul: Problem arall gyda meta-ddadansoddiadau yw eu bod yn tynnu ar ddata meintiol yn unigol. Mae angen i chi deall, fodd bynnag, y bu llawer o anfodlonrwydd ag astudiaethau meintiol mewn ymchwil addysgol - mae llawer o bobl o'r farn ei fod yn gorsymleiddio byd cymhleth iawn yr ystafell ddosbarth.

Peryglon gorgyffredinoli: Maent hefyd yn pwyntio at beryglon gorgyffredinoli. Mae llawer o astudiaethau meintiol yn seiliedig ar ymyriadau byr iawn; caiff llawer o'r

ymyriadau eu cyflwyno gan ymchwilydd neu rywun heblaw am yr athro/athrawes ddosbarth.

Felly beth yw'r dewis?

Adolygiadau naratif

- yn adrodd ar astudiaethau yr ymgymerwyd â nhw o amrywiaeth o safbwyntiau damcaniaethol, yn ansoddol ac yn feintiol
- mae ganddynt hefyd wendidau cynhenid, gan gynnwys tuedd wrth ddewis astudiaethau ac wrth eu dehongli.

Nodiadau: Y math arall o adolygiadau yw adolygiadau naratif. Mae ganddynt y fantais o gynnwys ymchwil ansoddol a meintiol. Fodd bynnag, mae ganddynt hefyd wendidau, gan gynnwys tuedd wrth ddewis astudiaethau a thuedd yn y dehongli. Felly, lle yn union y mae hyn yn ein gadael ni?

Y consensws o adolygiadau

- mae cyfarwyddyd ffoneg yn systematig yn amod *angenrheidiol* ond nid yw'n amod *digonol* ar gyfer addysgu darllen
- mae'r farn yn tueddu i ffafrio dull cytbwys yn hytrach na dulliau iaith gyfan neu ddulliau ffoneg yn cael eu defnyddio ar wahân.
- mae'r argyfwng ynghylch pedagogeg yn ymddangos yn fwy fel argyfwng gwneud nac argyfwng gwirioneddol.

Nodiadau: Wel … Mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol dweud bod cyfarwyddyd ffoneg yn systematig yn amod *angenrheidiol* ond nad yw'n amod *digonol* ar gyfer addysgu darllen

Mae'r farn yn tueddu i ffafrio dull cytbwys yn hytrach na dulliau iaith gyfan neu ddulliau ffoneg yn cael eu defnyddio ar wahân.

Ac wedi'r cyfan, mae'n ymddangos yn rhesymol dod i'r casgliad bod yr argyfwng ynghylch pedagogeg yn ymddangos yn fwy fel argyfwng gwneud nac argyfwng gwirioneddol.

Beth yw diben yr holl ffwdan ta beth?

- gwneir cysylltiadau pendant rhwng 'cynhyrchion' addysg, y farchnad lafur a pherfformiad economaidd cenedlaethol
- mae gwleidyddion a deddfwyr yn meddiannu trafodaethau ar athroniaeth a methodoleg addysgu llythrennedd a fu'n diriogaeth academyddion yn draddodiadol.

Nodiadau: Sy'n eu dwyn ymlaen i gwestiwn arall – Beth yw diben yr holl ffwdan ta beth?

I ateb y cwestiwn hwn, mae llawer o bobl o'r farn bod rhaid i ni edrych y tu hwnt i addysg i wleidyddion.

Mae llawer o bwyslais heddiw ar gynhyrchion addysg - y farchnad lafur a pherfformiad economaidd cenedlaethol. Felly, efallai nad yw'n syndod bod gwleidyddion a deddfwyr wedi meddiannu trafodaethau ar athroniaeth a methodoleg addysgu llythrennedd, trafodaethau a fu'n diriogaeth athrawon ac academyddion yn draddodiadol.

Adolygiadau rhyngwladol

- Panel Darllen Cenedlaethol Unol Daleithiau America, 2000
- Ymchwiliad Tŷ'r Cynrychiolwyr Seland Newydd i Addysgu Darllen, 2001
- Ymchwiliad Cenedlaethol i Addysgu Llythrennedd yn Awstralia, 2005
- Torgerson 2006
- Adroddiad Annibynnol Rose
- Adroddiad ESTYN

Nodyn: Edrychwch ar ddiddordeb cyrff deddfu cenedlaethol yn y maes hwn:

Fodd bynnag, i wneud fy mhwynt, hoffwn aros gyda'r sefyllfa yn America am ychydig.

Sefyllfa'r Unol Daleithiau

- Mae 101 o fesurau yn UDA sy'n annog neu sy'n gorchymyn bod cyfarwyddyd ffoneg yn cael ei gyflwyno yng nghyrff deddfu'r taleithiau rhwng 1990 a 2000.
- Mae'r mentrau hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig â deddfwyr Gweriniaethol
- Mae'r Dde Gristnogol hyd yn oed wedi hyrwyddo nifer o raglenni ffoneg Cristnogol fel yr unig ddull sicr o addysgu darllen yn ysbrydol ac yn addysgol.

Nodiadau: Mae ffoneg yn bwnc llosg gwleidyddol:

Yn ystod y 1990au, cyflwynwyd 101 o fesurau naill ai'n annog neu'n gorchymyn cyfarwyddyd ffoneg yng nghyrff deddfu'r taleithiau ac yn aml iawn roeddent yn cael eu cefnogi gan Weriniaethwyr a'r Dde Gristnogol. Mae hyd yn oed rhai rhaglenni ffoneg Cristnogol penodol sy'n cael eu hyrwyddo fel yr unig ddull sicr yn ysbrydol ac yn addysgol o addysgu darllen.

Ystumio canfyddiadau'r NRP

- Yn ddiweddar roedd Cyngor Cenedlaethol UDA ar Ansawdd Athrawon (NCTQ) wedi condemnio addysg athrawon yn y DU ar y rhagdybiaeth fod canfyddiadau'r Panel Darllen Cenedlaethol yn gywir ac 'nad oes unrhyw waith dilynol o ysgolheictod difrifol wedi herio'i ganfyddiadau'.
- Mae Richard Allington, cyn-lywydd y Gymdeithas Ddarllen Ryngwladol, yn herio'r rhagdybiaeth hon gan ddyfynnu'r ystod eang o erthyglau adolygu gan gymheiriaid a beirniadaethau hyd llyfr, llawer ohonynt gan awduron arobryn

Nodiadau: Agwedd bryderus arall ar hyn oll yw'r ffordd y mae canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu hystumio er budd yr agenda gwleidyddol.

Ystyriwch Gyngor Cenedlaethol UDA ar Ansawdd Athrawon, a wnaeth gondemnio addysg athrawon yn UDA ar y rhagdybiaeth fod canfyddiadau'r Panel Darllen Cenedlaethol yn gywir ac 'nad oes unrhyw waith dilynol o ysgolheictod difrifol wedi herio'i ganfyddiadau'.

Mae Richard Allington, cyn-lywydd y Gymdeithas Ddarllen Ryngwladol, yn herio'r rhagdybiaeth hon gan ddyfynnu'r ystod eang o erthyglau adolygu gan gymheiriaid a beirniadaethau hyd llyfr, llawer ohonynt gan awduron arobryn. Mae'n gwneud cyfres o bwyntiau trawiadol iawn:

Rhagdybiaethau a dehongliad

1. Roedd meta-ddadansoddiad yr NRP wedi cynhyrchu maint effaith 'bach'; yn adroddiad yr NCTQ roedd hyn wedi troi'n maint effaith 'cymedrol'
2. Yn Adroddiad yr NRP roedd ffoneg systematig yn cyfrif am 4% yn unig o'r amrywiaeth mewn cyflawniad; mae hyn yn gostwng i 1% pan wneir y meta-ddadansoddiad yn gywir. Nid yw'r un canfyddiad yn ddigon i awgrymu bod cyfarwyddyd ffoneg yn cynhyrchu llawer o wahaniaeth mewn canlyniadau darllen.

Nodiadau: Roedd meta-ddadansoddiad yr NRP cynhyrchu maint effaith 'bach'; yn adroddiad yr NCTQ roedd hyn wedi troi'n maint effaith 'cymedrol'

Yn Adroddiad yr NRP roedd ffoneg systematig yn cyfrif am 4% yn unig o'r amrywiaeth mewn cyflawniad; mae hyn yn gostwng i 1% pan wneir y meta-ddadansoddiad yn gywir. Nid yw'r un canfyddiad yn ddigon i awgrymu bod cyfarwyddyd ffoneg yn cynhyrchu llawer o wahaniaeth mewn canlyniadau darllen.

Rhagdybiaethau a dehongliad

3. Arsylwyd ar y rhan fwyaf o ganlyniadau dim ond pan roedd unigolion yn darllen geiriau gwirion neu eiriau arferol o restr (dim effaith ar ruglder darllen nac ar ddealltwriaeth)
4. Roedd y rhan fwyaf o astudiaethau yn cynnwys ymyriadau ychwanegu, tynnu allan, nid diwygio gwersi'r ystafell ddosbarth; prin yw'r casgliadau y gellir eu gwneud ynghylch effeithiau ffoneg systematig, neu ymwybyddiaeth ffonemig
5. Dim ond is-set o'r ymchwil sydd ar gael y gwnaeth yr NRP ei adolygu.

Nodiadau: 3) Arsylwyd ar y rhan fwyaf o ganlyniadau ar gyfer ffoneg dim ond pan roedd unigolion yn darllen geiriau gwirion neu eiriau arferol o restr (dim effaith ar ruglder darllen nac ar ddealltwriaeth)
4) Roedd y rhan fwyaf o astudiaethau yn cynnwys ymyriadau ychwanegu, tynnu allan, nid diwygio gwersi ystafell ddosbarth, felly prin yw'r casgliadau y gellir eu gwneud o effeithiau ychwanegu ffoneg systematig, neu ymwybyddiaeth ffonemig ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth.
5) Dim ond is-set o'r ymchwil sydd ar gael y gwnaeth yr NRP ei adolygu er eu bod wedi gwneud cofnod o rhyw ddwsin maes ymchwil yr oedd angen eu hadolygu yn eu barn nhw.

Sefyllfa'r DU

- pwyslais cynyddol ar ffoneg
- mae'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar *ba* ddull ffoneg sydd fwyaf effeithiol
- cyhoeddodd Gweinidog Addysg y Ceidwadwyr ym mis Ebrill 2005 y byddai pob plentyn yn Lloegr yn dysgu darllen gan ddefnyddio dull ffoneg synthetig.
- Ym mis Mawrth 2006, cymeradwyodd y Gweinidog Addysg addysg ffoneg synthetig

Nodiadau: Mae llythrennedd wedi denu sylw tebyg gan weinyddiaeth Llafur Newydd yn y DU lle mae diwygiadau olynol i bolisïau addysg blaenllaw wedi gosod pwyslais cynyddol ar ffoneg. Mae'r drafodaeth nid yn unig wedi troi o gwmpas bwysigrwydd cymharol ffoneg ond ar ba ddull ffoneg sydd fwyaf effeithiol, gyda chanfyddiadau dwy astudiaeth arhydol ddiweddar (Johnston a Watson, 2004; Grant, 2005) yn rhoi cefnogaeth i ffoneg *synthetig* yn hytrach na ffoneg *ddadansoddol*.

Yn ôl cefndir o dwrw cynyddol gan y Sefydliad Diwygio Darllen, sef grŵp lobïo sy'n eiriol dros 'ffoneg synthetig, yn gyntaf, yn gyflym ac yn unig' (Chew, 2005), cyhoeddodd Gweinidog Addysg yr Wrthblaid ym mis Ebrill 2005 y byddai pob plentyn yn Lloegr, o dan lywodraeth Geidwadol, yn dysgu darllen gan ddefnyddio dull ffoneg synthetig. Ym mis Mawrth 2006, cymeradwyodd y Gweinidog Addysg addysgu ffoneg synthetig yn dilyn cyhoeddi'r *Adolygiad Annibynnol o addysgu darllen* (Rose, 2006). Yn rhyfedd, anwybyddodd yr adroddiad hwn ganfyddiadau adolygiad systematig o agweddau at addysgu ffoneg (Torgerson et al., 2006), a gyhoeddwyd tri mis yn gynt ac a gomisiynwyd gan yr un adran yn y llywodraeth, na chanfu unrhyw dystiolaeth naill ai o blaid nac yn erbyn defnyddio ffoneg synthetig. Beth bynnag fo'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn, mae'r goblygiadau gwleidyddol yn glir: roedd y dull hwn o weithredu - trwy ddamwain neu trwy gynllun - wedi niwtraleiddio mantais a allai sicrhau pleidleisiau i'r blaid Geidwadol.

Safbwynt ar faterion wrth ddysgu ac addysgu Cymraeg

Meinir Ebbsworth, Swyddog Gwella Ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion

Slide 1
'Na gyd wi'n neud yw cywiro ...

Slide 2
Asesiadau Athro Blwyddyn 6
6 o bob 10

Slide 3
cystrawen/ berfau 26%

sillafu 33%
treiglo
41%

Slide 4
Ymchwil

- Lefelau 3 a 4

- Cyfri'r gwallau unwaith yn unig

Slide 5
1. Sillafu

- Diffyg pennaf ar lefel 4 yn amlwg
- Geiriau cyffredin iawn yn cael eu camsillfu – geiriau sylfaen – e.e rydw i, rwyf i
- Tuedd i sillafu geiriau mewn un e.e arol
- Tuedd i geisio 'Cymreigio' geiriau e.e chaso, writo, cleimo

Slide 6
Strategaethau Sillafu
Siapiau Geiriau



Dydd wedyn

Slide 7
Sillafu
geiriau aml uchel
v
geiriau pwnc benodol

Slide 8
Treiglo
- 30% o'r holl wallau treiglo wedi eu hachosi gan un gair bach!
- l

Slide 9
Gwallau treiglo eraill ...
Diffyg treiglo ar ôl yr arddodiaid yn gyfrifol am 53% o'r holl wallau treiglo
- o
- am
- ar
- gan

Slide 10
Gwallau treiglo eraill
- a
- fy
- ei (benywaidd)
- ei (gwrywaidd)

Slide 11
Taclo Treiglo ...
- Blaenoriaethu a chynllunio
- Amrywiaethau o ddulliau
- Magu 'clust'

Slide 12
Cardiau Fflach
- Teledu
- Cot
- Beiro

Slide 13
Cardiau Fflach
- Gwneud
- Darllen
- Pobl

Slide 14
Cardiau Fflach
- Bach
- Blewog
- Barus
- Bygythiol
- Blodeuog
- Bochgoch
- Brwnt
- Byr
- Blin
- Bywiog

- Blinedig
- Boliog

Slide 15
Gêmau

Slide 16
Gêmau
Slide 17
3. Cystrawen / Berfau
   - ❖ Terfyniadau berfau
   - ❖ Berfau afreolaidd
   - ❖ Diffyg amrywiaeth yn y berfau

Slide 18
Gêmau

Slide 19
Matiau Berfau

Slide 20
Cardiau Personol
Paragraff
Mae eisiau paragraff newydd pan ydyn ni'n dechrau syniad neu ddigwyddiad newydd yn ein gwaith.
Mae eisiau dechrau paragraff tua 2cm o ochr y dudalen.
Negyddu
Weithiau, mae eisiau sôn am rywbeth sydd heb ddigwydd.
Roeddwn i yno
Doeddwn i ddim yno
Mae e'n hoffi'r wers
Dydy e ddim yn hoffi'r wers

Presennol
Fel hyn mae ysgrifennu am bethau sy'n digwydd nawr
Rydw i'n gryf Rydyn ni'n dda
Rwyt ti'n hwyr Rydych chi'n fyr
Mae e'n dawel Maen nhw'n dal
Mae hi'n well

Gorffennol
Fel hyn mae ysgrifennu am bethau sydd wedi digwydd
Roeddwn i Roedden ni
Roeddet ti Roeddech chi
Roedd e Roedden nhw
Roedd hi

Slide 22
YSGOLION CYLCH TREGARON
Cynllunio Cymraeg - Cyfnod Allweddol 2

Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 2
Ffurfiau • Disgrifio cymeriad • Dyddiadur • Deialog/sgript • Stori • Holiadur a chwestiynau • Creu cartŵn • Llythyr Personol	Ffurfiau • Poster • Hysbyseb • Rhybuddion • Rheolau • Pasbort • Portread • Carden Post • Taflen Wybodaeth • Erthygl • Stori	Ffurfiau • Cardiau cyfarch a chyfarchion • Gwahoddiad • Cerddi • Gweddi • E-bost • Llythyr ffurfiol • Cyfarwyddiadau • Adolygiad o lyfr
Berfau Cadarnhau'r defnydd o'r amser presennol. Defnyddio rhai patrymau berfau'r gorffennol. Negyddu berfau	Berfau Berfau gorchmynnol syml a'u defyddio'n synhwyrol. Defnyddio patrymau penodol berfau'r gorffennol yn hyderus. Negyddu	Berfau Person cyntaf a'r trydydd peson presennol Berfau amodol e.e hoffwn i Berfau presennol e.e byddaf Berfau gorchmynnol yn synhwyrol
Iaith Adnabod a gwybod gwaith ansoddair Defnyddio atalnod llawn, atalnod a phrif lythyren. Ymwybyddiaeth o baragraffu.	Iaith Adnabod ac ysgrifennu rhifolion Defnyddio a threfnu misoedd y flwyddyn. Adnabod, gwybod gwaith a defnyddio	Iaith Odlau unsill Cyfrif sillafau Paragraffu ac atalnodi Iaith mynegi barn

Cadarnhau'r defnydd o ddyfynodau a'u rôl mewn sgwrs. Gwahaniaethu rhwng ffurfiau ti a chi. Defnyddio rhai ffurfiau holi ac ateb yn gywir. Treiglo ansoddeiriau ar ôl 'yn' Treiglo'n feddal ar ôl arddodiaid	ansoddeiriau i ddisgrifio cymeriadau. Ymwybyddiaeth o'r ebychnod a phryd i'w ddefnyddio. Cyflwyniad i gymariaethau a chychwyn eu defnyddio. Paragraffu ac atalnodi Dyfynodau Treiglo ar ôl rhagenwau fy, ei (ben), ei (gwr)	laith yn ymwneud â threfn e.e yn gyntaf, nesaf ayyb Ansoddeiriau Cymariaethau Treiglo'n feddal ar ôl arddodiaid Treiglo'n llaes ar ôl cyslltair 'a'

Slide 23

Cynllunio Cymraeg - Cyfnod Allweddol 2 – Ysgolion Cylch Tregaron
Cyfnod Allweddol 2, Tymor 1, Cylch 1
CHWEDL EINION

Ffurfiau a ddatblygir	Sgil Ffocws – Fframwaith Sgiliau	Cyd-destun	Gweithgareddau		Sgiliau Pwnc Benodol	Gofynion Cyffredinol
			Blwyddyn 3 a 4	Blwyddyn 5 a 6		
• Disgrifio cymeriad • Dyddiadur • Deialog/sgript • Stori • Holiadur a chwestiynau • Creu cartŵn						
	Meddwl: holi cwestiynau; cywain gwybodaeth	Map o Dregaron a llun o Bont Einion.	Ble mae'r lluniau? Beth ydych chi'n ei weld a'i ddysgu?	Ble mae'r lluniau? Beth ydych chi'n ei weld a'i ddysgu?	Llafaredd: ymateb yn ymestynnol	Cwricwlwm Cymreig
	Cyfathrebu:	Gwefan	Defnyddio'r	Defnyddio'r	Darllen:	Cwricwlwm

• Llythyr Personol FFOCWS IAITH • Berfau'r presennol • Berfau'r gorffennol • Negyddu berfau • Ansoddeiriau • Atalnod llawn, atalnod a phrif lythyren. • Ymwybyddiaeth o baragraffu. • Dyfynodau a'u rôl mewn sgwrs. • Ffurfiau ti / chi. • Ffurfiau holi ac ateb	Darllen; dod o hyd i wybodaeth. TGCh: dod o hyd i wybodaeth. Meddwl: cywain gwybodaeth.		wefan i ddod o hyd i ystyr yr enw Einion.	wefan i ddod o hyd i ystyr a tharddiad yr enw Einion.	defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn casglu gwybodaeth.	Cymreig.
	Cyfathrebu: Darllen; dod o hyd i wybodaeth; ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.	Addasiad perthnasol o Chwedl Einion	Trafod digwyddiadau'r stori. Ad-drefnu'r prif ddigwyddiadau	Trafod digwyddiadau'r stori Ad-drefnu'r prif ddigwyddiadau	Llafaredd: ymateb yn ymestynnol. Darllen: canfod ystyr	Cwricwlwm Cymreig.
	Meddwl: creu a datblygu syniadau. Cyfathrebu: Ysgrifennu; trefnu syniadau a gwybodaeth.	Dyfyniadau am Einion	Trafod cymeriad Einion. Paragraff yn disgrifio cymeriad Einion.	Trafod cymeriad Einion. Portread o gymeriad Einion.	Ysgrifennu: Defnyddio ffurfiau berfol. Treiglo ansoddeiriau'n feddal.	Cwricwlwm Cymreig.
	Meddwl: creu a datblygu syniadau. Cyfathrebu: Ysgrifennu; trefnu syniadau a gwybodaeth. Meddwl:gwerthuso eu dysgu a'u meddwl	Llun o long ar fordaith.	Un cofnod yn nyddiadur Einion ar y fordaith.	Dyddiadur Einion ar y fordaith.	Ysgrifennu: Defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol. Defnyddio ffurfiau berfol.	Cwricwlwm Cymreig.

Slide 24

Cynllunio

- Adnabod ar y cyd
- Blaenoriaethu
- Cynllunio gweithgareddau traws ysgol a thraws gyfnod